# CONWY CREADIGOL

## DATGANIAD STRATEGOL AR Y CELFYDDYDAU YNG NGHONWY 2016-2017

Dogfen Crynodeb











www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## CONWY CREADIGOL

## DATGANIAD STRATEGOL AR Y CELFYDDYDAU YNG NGHONWY 2016-2017

### Dogfen Crynodeb

Mae Conwy wedi ymrwymo i ddarpariaeth gelfyddydol fel sbardun economaidd ac yn fodd o hwyluso cydlyniant cymunedol yn ogystal â bod yn ffordd o helpu pobl i fod yn ddinasyddion ymrwymedig ac fel rhan o addysg i helpu i ddatblygu ein pobl ifanc i fod yn hyderus, empathig a medrus ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r sefyllfa bresennol gyda'r Celfyddydau yng Nghonwy ac yn rhan o fframwaith ehangach o bolisïau a strategaethau yng Nghymru a'r DU sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r celfyddydau. Yn benodol, mae'r strategaeth hon yn edrych i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau allweddol Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r rheiny yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei hun. Mae'r cynllun hefyd yn cael ei ddylanwadu gan adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Graham Donaldson. Mae *Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru* yn argymell bod Celfyddydau Mynegiannol yn un o'r chwe maes cyfartal ar gyfer dysgu a phrofiad. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi *Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau* gan Gyngor Celfyddydau Cymru - *cynllun gweithredu i Gymru 2015-2020.*

**CONWY CREADIGOL**

**CANLYNIADAU UN CONWY**

- Mae pobl yng Nghonwy yn cael eu haddysgu ac yn fedrus
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus
- Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu
- Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol
- Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

**DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

- Cymru ffyniannus
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru wydn
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru iachach
- Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Rydym yn credu bod y celfyddydau yn ac yn gallu cyfrannu at bob un o'r canlyniadau hyn a byddwn yn ystyried y canlyniadau hyn wrth gynllunio ein gweithgareddau celfyddydol ein hunain neu wrth weithio ar brosiectau partneriaeth.

Byddwn yn ystyried effaith y celfyddydau ar draws ein gwasanaethau a byddwn yn defnyddio'r celfyddydau er budd ein trigolion a'n ymwelwyr pryd bynnag y bo modd.

Byddwn yn annog ac yn cefnogi'r celfyddydau o fewn ein hamgylcheddau dysgu.